

Celf yng Nghyfarthfa | Art at Cyfarthfa



Sefydliad
Cyfarthfa
Foundation



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Rhagair | Foreword

Arferai Cyfarthfa fod yn rhan bwysig o'r chwyldro diwydiannol ac yn ganolfan fyd-eang ym maes cynhyrchu dur. Mae ganddo uchelgais i fod yn atyniad o bwys i dwristiaid, ac yn beiriant sy'n sbarduno creadigrwydd ac adnewyddu cymdeithasol.

Mae ei swyddogaeth bosib fel safle angor ar gyfer Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol Cymru, ochr yn ochr ag amgueddfa ddifyr am ein hanes diwydiannol, yn creu potensial ar gyfer llu o synergeddau creadigol a fydd yn rhoi cyd-destun a pherthnasedd i agweddau hanesyddol a chyfoes ei genhadaeth. Dylai'r cysylltiadau hyn greu cyffro ymhlith curaduron a'r cyhoedd fel ei gilydd.

Rhaid i sefydliad sy'n haeddu'r teitl 'Oriel Genedlaethol' wasanaethu sawl cynulleidfya: y cyhoedd – o bob oed – sy'n ymweld, artistiaid proffesiynol, plant, myfyrwyr ac ymchwilwyr. Rhaid iddo wasanaethu'r gymdogaeth a'r genedl, a thrwy wneud hynny, fod yn gwblymwybodol o'r darlun rhyngwladol, gan ymdrechu i fod ymhlith y gorau yn y byd o ran ei ymarfer. Rhaid iddo hefyd barchu'r amgylchedd a rhoi hynny wrth wraidd ei genhadaeth.

Os bydd yn gwneud yr holl bethau hyn yn fedrus ac yn llawn egni, bydd yn cyflawni ein dyheadau am effaith wirioneddol drawsnewidiol. Bydd wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr, cyfleoedd cyflogaeth newydd a mewnfuddsoddiad. Bydd wedi cynyddu balchder a chariad pobl at yr asedau hyn a'r gymuned y maen nhw wedi'u lleoli ynddi. Bydd nid yn unig wedi llenwi bwlch yn yr ymdrech i gyflwyno stori genedlaethol Cymru, ond hefyd wedi gwella ein dealltwriaeth o heriau dybryd y dyfodol.

Once a crucible of the industrial revolution and a global centre of iron production, Cyfarthfa has ambitions not only to be a major visitor attraction, but also an engine of creativity and social renewal.

Its envisaged role as the anchor site of a National Gallery of Contemporary Art for Wales, sitting alongside a compelling museum of our industrial history, creates a potential for myriad creative synergies that will provide context and relevance for both the historical and contemporary aspects of its mission. These conjunctions should be a source of excitement for curators and public alike.

An institution that merits the title 'National Gallery' must serve several audiences: the visiting public - of all ages - professional artists, children, students and researchers. It must serve both the locality and the nation, and in doing so be steadfastly internationally conscious. It will strive to be world-leading in practice. It must also respect the environment and make that central to its mission.


If it does all these things with energy and skill it will fulfil our aspirations for a truly transformative effect. It will have increased visitor numbers, new employment opportunities and inward investment. It will have increased pride in and affection for these newly burnished assets and the community in which they are located. It will not only have filled a gap in the presentation of Wales' national story, but also enhanced our understanding of pressing future challenges.

Serch hynny, mae Castell Cyfarthfa – er ei fod yn rhan hollbwysig o'n hanes, ac eisoes yn gartref i gasgliad celf pwysig – mewn perygl enbyd ar hyn o bryd. Mae angen atgyweirio ac adnewyddu'r adeilad ar raddfa fawr os yw am oroesi i gyflawni'r swyddogaeth newydd bwysig hon. Mae'r angen hwnnw bellach yn un brys.

Fel Sefydliad, nid rhywbeth moethus sydd wedi'i dynghedu i fod yn ddim byd ond breuddwyd am byth yw ein gweledigaeth, ond yn hytrach ymdrech frys i achub rhan o'n hanes, a chreu ased ysbrydoledig i'r gymuned a'r genedl a all fod yn arwydd o ymrwymiad dwfn i'n gwerthoedd, ein hadferiad a'n hadnewyddiad.

However, Cyfarthfa Castle - despite representing a crucially important part of our history, and already housing an important art collection - is currently in substantial jeopardy. The building needs large scale repair and renewal if it is to survive to fulfil this important new function. That need is now urgent.

As a Foundation, our vision is not of a luxury doomed to remain a dream, but rather of the urgent rescue of part of our history, and the creation of an inspiring working asset for the community and the nation that can be emblematic of a total commitment to our values, recovery and renewal.



Geraint Talfan Davies,
Cadeirydd, Sefydliad Cyfarthfa | Chair, Cyfarthfa Foundation
Gorffennaf 2023 | Summer 2023

Rhagymadrodd | Introduction

Mae Cultural Associates Oxford wedi treulio chwe mis yn gweithio gyda Sefydliad Cyfarthfa i ddatblygu ei uchelgeisiau ar gyfer celf. Yn ystod ein hymweliad cyntaf, cawsom ein hysbrydoli gan ansawdd y mannau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn yr adeilad, yn enwedig eu potensial i arddangos celf. Cawsom ein cyfareddu gan y parc gyda'i fannau agored, ei gorneli cudd, ei goetir a'i olygfeydd godidog.

Cultural Associates Oxford have spent six months working with the Cyfarthfa Foundation to develop its ambitions for art. On our first visit we were inspired by the quality of the building's unused spaces, particularly their potential for displaying art; we were entranced by the park with its open spaces, hidden corners, woodland and extensive views.



Fe wnaeth treftadaeth o ddyfeisgarwch a radicaliaeth yr ardal ennyn ein chwilfrydedd, ac roedden ni'n wylaidd o weld cariad a hoffter dwfn a diffuant y trigolion lleol tuag at Gyfarthfa. Dywedwyd wrthym dro ar ôl tro bod gan bob teulu lleol luniau o'u plant neu eu wyrion yn eistedd ar y canonau o flaen y Castell.

Cafwyd cryn frwdfrydedd am fwy o gelf yng Nghyfarthfa, am adfywio'r castell ac am gerfluniau ym Mharc Cyfarthfa. Fe wnaeth ehangder yr ymgysylltu ag ysgolion, colegau a grwpiau lleol greu argraff arnon ni. Mae gan staff yr amgueddfa gysylltiadau dwfn gyda'u cynulleidfaoedd a'u cymunedau. Mae eu gwaith a'u brwdfrydedd wedi ein gwneud ni'n eiriolwyr dros y cyfle sydd gan Gyfarthfa i'w gynnig fel caffaeliad cymunedol pwerus, ac fel elfen allweddol yn rhwydweithiau cymorth a chreadigrwydd Merthyr Tudful.

Ochr yn ochr â'r Castell, fe wnaethon ni brofi adnoddau cymunedol eraill Cyfarthfa, fel y tai gwydr a'r Bothy, a chafwyd cyfle i gwrdd â nifer o bobl eraill, hen ac ifanc, sy'n angerddol dros gymryd rhan mewn celf a diwylliant yn y dref yn ehangach. Ochr yn ochr â'i arwyddocâd treftadol pwysig, mae celf yn debygol o chwarae rôl hyd yn oed yn fwy yn nyfodol Cyfarthfa, a bod yn beiriant creadigrwydd. Rydyn ni'n falch ein bod ni wedi gallu dod â hyn i'r amlwg.

We became intrigued by the area's heritage of ingenuity and radicalism, and humbled by local people's deep and genuine love and affection for Cyfarthfa. We have been repeatedly told that every local family has photographs of children or grandchildren sitting on the cannons in front of the Castle.

We met huge enthusiasm for more art at Cyfarthfa, for breathing new life into the castle and for sculpture in Cyfarthfa Park. We were impressed by the current depth and extent of engagement with schools, colleges and local groups. Museum staff are deeply connected with their audiences and communities. Their work and enthusiasm have made us advocates for the opportunity Cyfarthfa offers as a powerful community asset, and as a key player in Merthyr Tydfil's networks of support and creativity.

Alongside the Castle we experienced Cyfarthfa's other community resources such as the greenhouses and the Bothy, and we met many other people, old and young, passionate for participation in art and heritage in the wider town. Alongside its important heritage significance, art is destined to play an even larger part in Cyfarthfa's future than might have been imagined, and to be an engine of creativity. We are proud to have been able to bring this to the fore.

Crynodeb

Bydd Cyfarthfa yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gyda chelf o Gymru a chelf o weddill y byd. Bydd Cyfarthfa hefyd yn fan lle bydd artistiaid yn ymgynnull a lle bydd celf yn cael ei greu.

Celf Gymreig a rhyngwladol Bydd prif arddangosfeydd celf Cyfarthfa wedi'u gwreiddio yng nghasgliad arbennig Cyfarthfa, a fydd yn elwa o raglen gasglu newydd fel y gall barhau i gwmpasu cyfoeth y celf sy'n cael ei greu yng Nghymru ac sy'n berthnasol iddi. Bydd y naratifau celf yn mynd law yn llaw ag adrodd hanes a threftadaeth yr ardal, sydd o bwys rhyngwladol.

Parc Cerfluniau Mae parc 160 erw Cyfarthfa yn cynnig amrywiaeth gyfoethog o leoliadau i arddangos cerfluniau. Bydd y pwyslais ar gerfluniau y gall y cannoedd o filoedd o bobl sy'n ymweld â'r parc bob blwyddyn ryngweithio â nhw – cerfluniau y gall pobl hefyd helpu i'w dylunio a'u creu. I ysgogi pobl i ymweld dro ar ôl tro, bydd rhai o'r cerfluniau yn newid yn rheolaidd.

Gwyliau a digwyddiadau Nod Cyfarthfa fydd integreiddio celf arbennig i amrywiaeth o ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn. Bydd ganddo hefyd y gallu i gynnal digwyddiadau cenedlaethol fel Artes Mundi neu wobr Turner, mewn cydweithrediad â'u prif noddwyr. Gallai gwyliau llawn celf ddatblygu enw da yn rhyngwladol, gan sicrhau bod pobl yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn cael profiad o gelf o safon fyd-eang.

Lle i artistiaid ymgynnull Dylai Cyfarthfa fod yn rhywle lle y gall artistiaid weithio mewn stiwdios fforddiadwy a llogi gweithdai sydd â chyfleusterau da – lle ar gyfer preswyladau a chyfnewidfeydd rhyngwladol ar gyfer artistiaid profiadol ac artistiaid newydd o Gymru a thramor. Gall seminarau, cynadleddau a darlithoedd adeiladu ar broffil rhyngwladol Cyfarthfa fel lle i greu celf ac i archwilio syniadau newydd.

Dysgu a Chymuned Bydd Cyfarthfa yn adeiladu ar ei hanes cryf o ddysgu celfyddydau gweledol a pherthynas ddofn ag ysgolion lleol a thrigolion lleol. Bydd dysgu a chyfranogiad cymunedol yn cael eu plethu drwy bopeth y mae Cyfarthfa yn ei wneud.

Summary

Cyfarthfa will engage local, national and international audiences with art from Wales and art from the rest of the world. Cyfarthfa will also be a place where artists gather and where art is made.

Welsh and international art Cyfarthfa's main art displays will be grounded in Cyfarthfa's exceptional collection, which will benefit from a reinvigorated programme of collecting so that it can continue to encompass the richness of art made in and relevant to Wales. Art narratives will connect with Cyfarthfa's parallel telling of the internationally significant history and heritage of the area.

Sculpture park Cyfarthfa's 160-acre park offers a rich variety of settings for displaying sculpture. The emphasis will be on sculptures that the park's hundreds of thousands of annual visitors can interact with - sculpture that people can also help to design and make. To stimulate repeat visits, some of the sculptures on display will change regularly.

Festivals and events Cyfarthfa will aim to integrate spectacular art into a range of events across the year. It will also have the capacity to host national events such as Artes Mundi or the Turner Prize, in collaboration with their main sponsors. Art-filled festivals could develop an international reputation, ensuring that people locally, nationally and internationally will experience world-class art.

A gathering place for artists Cyfarthfa should be a place where artists can work in affordable studios and hire its well-equipped workshops – a place for residencies and international exchanges for established and emerging artists, from Wales and overseas. Seminars, conferences and lectures can build Cyfarthfa's international profile as a place where art is made and new ideas explored.

Learning and Community Cyfarthfa will build on its strong record of visual arts learning and deep relationships with local schools and local residents. Learning and community participation will be woven into everything Cyfarthfa does.

Cyfarthfa

Cyfarthfa Nawr Cyfarthfa Now	10
Castell Cyfarthfa Cyfarthfa Castle	12
Trawsnewid y Parc Transforming the Park	14
Casgliad Cyfarthfa The Cyfarthfa Collection	20
Arddangosfeydd Celf Art Displays	22
Celf yn y Parc Art in the Park	26
Arddangosfeydd dros Dro Temporary Exhibitions	28
Gwyliau a Sioeau Celf Art Festivals and Spectacles	30
Dysgu a Chymuned Learning and Community	34
Cefnogi Artistiaid Supporting Artists	36
Lleol Local	38
Cenedlaethol National	40
Byd-eang Global	42
-	
Ardystiadau Endorsements	44
-	
Cyfranwyr Contributors	48

Cyfarthfa Nawr | Cyfarthfa Now

Mae Cyfarthfa mewn lle perffaith i gyflawni ei uchelgais o ran celf. Mae'n cwmpasu castell hanesyddol poblogaidd a'r parc mawr o'i amgylch. Mae nifer o'r ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio yn yr adeilad ar hyn o bryd yn barod i gael eu datblygu fel orielau hardd, mannau dysgu, stiwdios a gweithdai. Mae'r parc yn berffaith i arddangos cerfluniau, ac mae'r casgliad yn drysorfa nad yw'n cael ei defnyddio ddigon. Mae ymchwydd o frwdfrydedd yn lleol am fwy o gelf uchelgeisiol yng Nghyfarthfa¹.

I gynulleidfa ehangach, gan gynnwys 1.5m o drigolion Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, mae lleoliad Cyfarthfa yn wych. Mae Metro De Cymru ar fin cynyddu cyflymder ac amllder trenau o Gaerdydd a chymunedau eraill y Cymoedd. Mae Cyfarthfa hefyd ar gyffordd dwy brif ffordd – yr A470 a ffordd Blaenau'r Cymoedd – gan roi mynediad cyflym o bob cyfeiriad, gan gynnwys Rhanbarth Dinas Abertawe yn y gorllewin a Chanolbarth Lloegr i'r dwyrain.

Gyda hanes sy'n arwyddocaol ar lefel byd-eang, ac wrth iddi ddod yn brifddinas de facto Cymoedd De Cymru, mae Merthyr Tudful yn datblygu ei arlwy twristiaeth, gyda BikePark Cymru wedi'i lansio ac atyniad sgïo dan do ar y gweill yng Ngorllewin Rhyd-y-car. Gall hefyd fanteisio'n llawn ar ei agosrwydd at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae Cyfarthfa yn cofleidio'r Castell (Rhestredig Gradd 1) a'r Parc (Rhestredig Gradd 2*), sy'n cwmpasu 160 o erwau ger canol tref Merthyr Tudful.

Cyfarthfa is perfectly placed to deliver its art ambition. It encompasses a much-loved historic castle and its large surrounding park. The building has numerous unused rooms ready to be developed as beautiful galleries, learning spaces, studios and workshops, the park is perfect to display sculpture, and the collection is an under-used treasure trove. There is a groundswell of local enthusiasm for more ambitious art at Cyfarthfa¹.

For a wider audience, including the 1.5m residents of the Cardiff Capital Region, Cyfarthfa's location is superb. The South Wales Metro is increasing the speed and frequency of trains from Cardiff and other valley communities. Cyfarthfa also sits at the junction of two major roads – the A470 and the Heads of the Valleys road – providing fast access from all points of the compass, including the Swansea city region in the west and the English Midlands to the east.

With globally significant history and now emerging as a de facto capital of the South Wales Valleys, Merthyr Tydfil is developing its tourism offer, with Bike Park Wales up and running and a major indoor ski resort at Rhydycar West in prospect. It can also take full advantage of its proximity to the Bannau Brycheiniog National Park.

Cyfarthfa embraces the Castle (Grade 1 listed) and Park (Grade 2* listed), which covers 160 acres close to Merthyr Tydfil town centre.

¹ Nododd bron i 70% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn ymweld ag oriel well yng Nghyfarthfa a'u bod yn credu y byddai'n gwella ffyniant yn lleol | ¹ Almost 70% of survey respondents would visit an improved gallery at Cyfarthfa and believed it would enhance local prosperity.



Castell Cyfarthfa |

Cyfarthfa Castle

Ar hyn o bryd, dim ond tua 15 y cant o adeilad y Castell sy'n agored i'r cyhoedd fel amgueddfa ac oriel. Mae llawer o weddill yr adeilad heb ei ddefnyddio ers i Ysgol Uwchradd Cyfarthfa symud i safle newydd yn 2013. Mae mewn cyflwr gwael ac mae angen ei atgyweirio ar frys.

Annedd preifat i'r teulu Crawshay oedd y Castell yn wreiddiol, ac mae bellach yn perthyn i bobl Merthyr, sy'n eithriadol o falch ac yn hoff iawn ohono. Bydd y rhannau o'r adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu hadfer neu eu hail-gynllunio i greu amgylchedd hynod gymdeithasol gan gynnwys orielau gwell, mannau dysgu a chreu, stiwdios i artistiaid, a llefydd i ddysgu, i chwarae ac i ymgynnull.

Currently, only about 15 per cent of the Castle building is open to the public as a museum and gallery. Much of the remainder of the building has been unused since the relocation of Cyfarthfa High School to a new site in 2013; it is in poor condition and urgently needs repair.

Originally a private dwelling for the Crawshay family, the Castle now belongs to the people of Merthyr who have huge pride and affection for it. Unused parts of the building will be restored or re-configured to create an intensely social environment including enhanced galleries, education and maker spaces, artist studios, and places to learn, play and gather.



Mae'r hen ystafelloedd dosbarth ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y Castell yn gymesur ac wedi'u haddurno'n syml, gyda golau naturiol gwych o'r ffenestri sy'n wynebu'r gogledd ac yn edrych allan ar goetir. Gellid agor rhai ystafelloedd dosbarth i wneud ystafelloedd mwy. Gall y gofodau gwell hyn gael eu defnyddio ar gyfer celf ac arddangosfeydd llawer gwell o hanes cymdeithasol Merthyr a'i threftadaeth ddiwydiannol a thechnolegol. Gallai mannau i ddigwyddiadau a stiwdios a gweithdai i artistiaid gael eu lleoli yng Nghwrt Stablau'r Castell neu mewn mannau eraill a ddefnyddid gan yr ysgol.

Gallai ystafelloedd y teulu o fewn y Castell, sydd wedi'u haddurno'n gywrain ac sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer arddangosfeydd yr amgueddfa ac arddangosfeydd celf gorlawn, gael lle i anadlu a'u cyflwyno yn debycach i fel yr oeddent yn y 19eg ganrif. Gallai'r gofodau hyn fod ar gael ar gyfer priodasau neu ddigwyddiadau eraill, a allai greu incwm.

Mae potensial hefyd i greu gofodau arddangos mwy sylweddol a mwy dramatig o fewn a thu hwnt i ôl troed presennol y castell drwy waith ad-drefnu ac ychwanegu sensitif. Mae'r cynllun a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys adeiladau ychwanegol, a gynlluniwyd fel bod Cyfarthfa yn gallu bodloni gofynion gofod Llywodraeth Cymru ar gyfer safle angor arfaethedig ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Dim ond rhoi syniad o botensial Cyfarthfa yw bwriad hwn.

The former school classrooms on the ground and first floors of the Castle are simply detailed and well-proportioned spaces, with excellent natural light from north facing windows that look out onto woodland. Some classrooms could be opened up to make larger rooms. These enhanced spaces can be used both for art and for much improved museum displays of Merthyr's social history and industrial and technological heritage. Event spaces and artist studios and workshops could be accommodated in the Castle's Stable Courtyard or in other areas formerly occupied by the school.

The finely decorated family rooms of the Castle, currently used for crowded museum and art displays, could be given space to breathe and presented more as they were in the 19th century. These spaces could be made available for weddings and other events, which would generate income.

There is also a potential to create larger, more dramatic display spaces within and beyond the castle's existing footprint through sensitive reconfiguration and additions. The scheme illustrated in this report includes additional buildings, designed so that Cyfarthfa can meet the Welsh government's space requirements for a proposed anchor site for the National Gallery of Contemporary Art. This is intended only as an indication of the potential of Cyfarthfa.

Dydy 85% o Gastell Cyfarthfa ddim wedi cael ei ddefnyddio yn ystod y degawd diwethaf. Mae angen atgyweirio'r adeilad ar frys ac mae ganddo botensial enfawr. (tudalen sy'n wynebu). | 85% of Cyfarthfa Castle has been unused for the past decade. The building is in urgent need of repair and has huge potential. (facing page)

Trawsnewid y Parc | Transforming the Park

Mae gan Barc Cyfarthfa fryniau coediog, llynnoedd a phyllau, gerddi ffurfiol a golygfeydd ar draws y cwm. “Mae tirlun Cyfarthfa yn cynnig amrywiaeth anhygoel o dirwedd a chynefinoedd gyda photensial enfawr i bob un gael eu dyrchafu a’u gwella i greu lle unigryw a chyffrous i ymweld ag ef.”²

Ein huchelgais ar gyfer y dirwedd yw y dylai'r newid fod yn drawsnewidiol, gan greu cyrchfan hygyrch, addysgol, ysbrydoledig, creadigol, bioamrywiol a chynaliadwy, gan ymgorffori ymdeimlad dwys o gymuned a naratif cymdeithasol. Bydd ail-lunio'r dirwedd o amgylch y castell, y parc, y ffwrnesi a'r adeiladau newydd yn dathlu cyfoeth y safle ac yn rhoi ymdeimlad o'i ddatblygiad dros amser – gan blethu datblygiad daearegol, llystyfiant hynafol a manteisio ar fwyngloddio a meteleg gyda'r profiad cyfoes o hamdden, diwylliant a dysg.

Cyfarthfa Park has wooded hills, lakes and pools, formal gardens and views across the valley. “The Cyfarthfa landscape offers an incredibly diverse variety of landscape characters and habitats with huge potential for each to be elevated and enhanced to create a unique and exciting place to visit.”²

Our ambition for the landscape is that the change should be transformative, creating an accessible, educational, inspiring, creative, biodiverse and sustainable destination, embodying a profound sense of community and social narrative. The re-shaping of the landscape around the castle, park, furnaces and new buildings will celebrate the richness of the site and give a sense of its development through time - weaving together geological development, ancient vegetation and exploitation through mining and metallurgy with the contemporary experience of recreation, culture and learning.

² Grant Associates, Arfarniad Tir Cyfarthfa, 2023, t4 | ² Grant Associates, Cyfarthfa Landscape Appraisal, 2023, p4.
Elusen gan Damien Hirst, Parc Cerfluniau Swydd Efrog, Penseiri: Penseiri Feilden Fowles, Penseiri Tirwedd: JCLA. (tudalen sy'n wynebu) | Charity by Damien Hirst, Yorkshire Sculpture Park, Architects: Feilden Fowles Architects; Landscape Architects: JCLA. (facing page)





Hauser a Wirth, Gwlad yr Haf (brig), Parc Naturiol Stryd Camley. (gwaelod) |
Hauser and Wirth, Somerset (top), Camley Street Natural Park. (bottom)

Bydd gwell bioamrywiaeth yn ganlyniad allweddol, gyda chynefinoedd cyfoethocach yn cael eu creu ar gyfer pob rhywogaeth drwy waith plannu newydd a rheolaeth arbenigol – adnodd ar gyfer hamdden, cynhyrchiant ac addysg. Gall y llynnoedd a'r systemau dŵr yn y parc, gyda'u naratif archeoleg ddiwydiannol, gynnal poblogaeth bywyd gwylt llawer mwy amrywiol a nodedig.

Gall ardaloedd o goedlannau ddarparu deunyddiau ar gyfer gweithgareddau creadigol, gan gyfeirio at ddefnyddiau amaethyddol anghofiedig y parc. Gall gerddi o ffrwythau, cnau, aeron a madarch gynnig cyfleoedd i fforio a chyfle i ryngweithio'n agosach â'r byd cudd o'n cwmpas. Gall tŷ gwydr Jwrasig wedi'i ailddychmygu wahodd ymwelwyr i deithio nôl mewn amser i fyd o blanhigion 'brodorol' cynhanesyddol.

Byddwn yn atgyweirio gwaddol cylchrediad gwael ar draws y safle, sy'n deillio o'i hanes fel ystâd breifat. Bydd angen i gysylltiadau ehangach y parc, drwy afonydd a thramffyrdd hanesyddol – sy'n ymestyn ymhell i mewn i Fannau Brycheiniog – gael seilwaith beicio gwell i gyfuno'r profiadau hyn o'r dirwedd.


Gall cyfres o deithiau nodedig, llawn cymeriad ac archwiliadol arwain ymwelwyr ar lwybrau o ddarganfod o amgylch y parc, gan ddefnyddio ei hanes unigryw ac aml-haenog i lywio dyfodol newydd a chyffrous.

Enhanced biodiversity will be a key outcome, with richer habitats created for all species through new planting and expert management - a resource for recreation, productivity and education. The water bodies and systems in the park, with their industrial archaeology narrative, can support a significantly more diverse and distinctive wildlife population.

Areas of coppice can provide materials for creative activities, referencing the often forgotten agricultural uses of the parkland. Gardens of fruit, nuts, berries and mushrooms can offer foraging opportunities and a chance to interact more closely with the hidden world around us. A re-invented Jurassic glasshouse can invite visitors to travel back in time to a world of prehistoric 'native' plants.

We will repair the legacy of poor circulation across the site, derived from its history as a private estate. The park's wider connections, via rivers and historic tram roads – reaching well into Bannau Brycheiniog – will require an improved cycling infrastructure to knit together these landscape experiences.

A series of distinctive, characterful and explorative journeys can lead visitors on trails of discovery around the park, using its unique and multi-layered history to inform a new and exciting future.



Casgliad Cyfarthfa | The Cyfarthfa Collection



Mae casgliad Cyfarthfa yn cynnwys paentiadau o'r chwyldro diwydiannol fel Gwaith Dur Cyfarthfa fin nos gan Penry Williams, 1825 | Cyfarthfa's collection includes paintings of the industrial revolution such as Penry Williams Cyfarthfa Ironworks Interior at Night, 1825

Mae Cyfarthfa wedi bod yn casglu celf ers iddo ddod yn amgueddfa ac oriel gelf yn 1910. Mae ganddo gasgliad sylweddol o waith celf o'r 19eg ganrif, sy'n adlewyrchu safle'r ardal yn arwain y byd ym maes cynhyrchu haearn, a'r chwyldro amgylcheddol a chymdeithasol a fu'n cyd-fynd â hynny. Mae'r straeon a'r golygfeydd hyn yn haeddu mwy o sylw, oherwydd eu bod nhw, yn gyffredinol, yn llai cyfarwydd na chelf y chwyldro diwydiannol o Ganolbarth Lloegr.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, bu Cyfarthfa wrthi'n frwd yn casglu, ac roedd yn un o brif gasgliadau celf gyfoes Cymru, gan dderbyn mwy o weithiau oddi wrth Gymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru nag unrhyw oriel arall.

Yn 2021, gweithiodd Cyfarthfa mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru i brynu pâr o luniau o 19eg ganrif cynnar sy'n portreadu golygfeydd diwydiannol. Serch hynny, ychydig iawn o gasglu a fu'n ddiweddar, yn rhannol oherwydd prinder lle diogel i storio'r gweithiau oherwydd cyflwr gwael yr adeilad. Mae potensial nawr i greu strategaethau casglu ac arddangos mwy uchelgeisiol mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol.

Bydd Cyfarthfa unwaith eto yn casglu drwy brynu a meithrin perthnasoedd gydag artistiaid a chasglwyr i annog rhoddion. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer casglu yn debygol o gynnwys:

- Celf Cymru
- Gweithiau sy'n gysylltiedig â Merthyr/ Casgliadau celf yn y Cymoedd
- Artistiaid o Gymru ers y 1960au
- Ffotograffiaeth ddogfennol a chreadigol sy'n ymwneud â Chymru
- Celf gyfoes o Gymru a gweddill y byd.

Cyfarthfa has been collecting art since it became a museum and art gallery in 1910. It has a significant collection of 19th century art reflecting the area's position leading the world in iron production, with accompanying environmental and social upheaval. These industrial stories and scenes deserve a higher profile as they are generally less well known than industrial-revolution art from the English Midlands.

After World War II, Cyfarthfa collected energetically, and was one of Wales's main collections of contemporary art, receiving more works from the Contemporary Art Society for Wales than anywhere else.

In 2021 Cyfarthfa partnered with National Museum Wales to purchase a pair of early 19th century industrial scenes. However, in general there has been little recent collecting, partly because of a lack of safe storage space due the poor condition of the building. The potential now exists to create more ambitious collection and display strategies in partnership with the National Museum and National Library.

Cyfarthfa will once again collect by purchasing and by building relationships with artists and collectors to encourage donations. Priorities for collecting are likely to include:


- The art of Wales
- Merthyr-related works / Art collectives in the valleys
- Welsh artists since 1960s
- Wales-related documentary and creative photography
- Contemporary art from Wales and the world

Arddangosfeydd Celf |

Art Displays

Bydd cyfres newydd o orielau cymesur, gyda golau naturiol, yn caniatáu i gasgliad celf Cyfarthfa gyrraedd ei botensial llawn. Bydd paentiadau yn cael lle i anadlu. Bydd y gweithiau celf yn cael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd cyffrous ac arloesol, wedi'u curadu gan amrywiaeth o bobl, gan gynnwys haneswyr, artistiaid, enwogion ac aelodau'r gymuned leol.

A new suite of well proportioned, naturally lit galleries will allow Cyfarthfa's art collection to reach its full potential. Paintings will be given space to breathe. Art will be presented in a variety of exciting and innovative ways, curated by a diverse range of people, including historians, artists, celebrities and members of local communities.



Nod ambell arddangosfa fydd bod yn hanesyddol ddiffiniol, eraill yn fyfyrgar a phryfoclyd. Bydd newid arddangosfeydd y casgliadau yn golygu y bydd gan ymwelwyr cyson rywbeth newydd i'w weld bob tro.

Gallai arddangosfeydd sy'n ymwneud â chasgliadau gynnwys:

- Tirluniau a bywyd gwaith diwydiannol sy'n portreadu'r ffwrnesi a'r gweithwyr, a newid amgylcheddol a chymdeithasol, gan gynnwys terfysgoedd Merthyr
- Ffotograffiaeth yn y Cymoedd, o waith Robert Crawshay, yr arloeswr ffotograffig o Gyfarthfa yn y 19eg ganrif, i ffotograffiaeth yr 21ain ganrif a gyd-gynhyrchwyd gan bobl ifanc ar stad y Gurnos gan Clémentine Schneidermann a Charlotte Barry
- Ail-greu'r arddangosfeydd celf a agorodd y Castell i'r cyhoedd yn 1910
- Paentiadau llais anhygoel Margaret Watts Hughes o'r 1870au a'r 80au, gydag ymatebion artistiaid llais a sain cyfoes.

Byddai'r rhan fwyaf o arddangosfeydd celf yn cael eu cartrefu naill ai mewn mannau sydd wedi'u hadnewyddu i ansawdd uchel, fel yr hen ystafell ddosbarth, neu mewn orielau newydd sbon. Bydd rhywfaint o gelf yn parhau i gael ei arddangos yn ystafelloedd mwyaf cywrain y castell, bydd rhai hefyd yn cael eu cynnwys gydag arddangosfeydd Cyfarthfa o hanes cymdeithasol a threftadaeth ddiwydiannol Merthyr, sydd o bwys rhyngwladol.

Some displays will aim to be historically definitive, others speculative and provocative. Changing collection displays will mean that regular visitors will always have something new to see.

Collection-based displays could include:

- Industrial landscapes and working life, showing furnaces and workers, and also environmental and social change, including the Merthyr riots
- Photography in the Valleys, from the work of Cyfarthfa-based 19th century photographic pioneer Robert Crawshay to 21st century photography co-produced with young people on the Gurnos estate by Clémentine Schneidermann and Charlotte Barry
- Recreating the art displays that opened the Castle to the public in 1910
- Margaret Watts Hughes' voice paintings from the 1870s and 80s, with responses by contemporary sound and voice artists.

Most art displays would be housed either in high quality refurbished spaces such as the former school classrooms, or in newly created galleries. Some art will continue to be displayed in the Castle's finest rooms, some will also be integrated with Cyfarthfa's displays of Merthyr's internationally significant social history and industrial heritage.

Arddangosfa bosib yn seiliedig ar gasgliad celf Cyfarthfa mewn mannau sydd wedi'u hadnewyddu, a grëwyd yn wreiddiol fel ystafelloedd dosbarth. Mae'r ystafelloedd hyn yn gweddu'n berffaith ar gyfer celf ac mae gan nifer o'r ystafelloedd olau gogleddol ysgafn o ffenestri sy'n edrych dros goetir (tudalen sy'n wynebu) | A potential display based on the Cyfarthfa art collection in refurbished spaces originally created as school classrooms. These rooms are perfectly proportioned for art and many have gentle north light from windows overlooking woodland (facing page)

Celf yn y Parc | Art in the Park

Mae Parc Cyfarthfa yn ganolog i'r uchelgais sy'n cael ei lywio gan gelf. Bydd yn cynnig cefnlen wych ar gyfer cerfluniau, gan gyfoethogi ei rôl fel parc lleol sy'n annwyl gan lawer ac sy'n cael ei defnyddio'n aml. Bydd y prif bwyslais ar gerfluniau y gellir eu cyffwrdd, dringo arnyn nhw neu chwarae gyda nhw yn ddiogel, sy'n cyd-fynd yn berffaith â'r gweithgareddau hamdden presennol sy'n denu 300,000-500,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Bydd Cyfarthfa yn comisiynu artistiaid sy'n denu pobl at y broses o greu cerfluniau. Bydd rhai yn cael eu creu ar y safle, gyda chyfleoedd i artistiaid newydd ddatblygu eu sgiliau.

Ni fydd pob cerflun yn y parc yn cael ei gynllunio fel gosodwaith parhaol. Efallai y bydd rhai yn cael eu comisiynu ar gyfer Cyfarthfa yn wreiddiol cyn symud i rywle arall; bydd rhai wedi'u cynllunio i gael bywyd byr, efallai wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol a fydd yn dadfeilio'n naturiol.

Bydd yr arddangosfeydd newidiol hyn o gerfluniau yn denu sylw'r cyhoedd a'r cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, yn annog pobl i ailymweld, ac yn osgoi'r gost uchel o brynu cerfluniau mawr awyr agored, yn ogystal â'r her o'u cynnal a'u cadw yn y tymor hir.

Cyfarthfa Park is central to the art-led ambition. It will provide a fabulous backdrop for sculpture, enhancing its role as a much loved and well used local park. The main focus will be on sculpture that can be safely touched, climbed on or played with, a perfect complement to the current leisure activities that attract 300,000-500,000 annual visits.

Cyfarthfa will commission artists that engage people in the process of creating sculpture. Some will be made onsite, with opportunities for emerging artists to develop their skills.

Not all sculptures in the park will be designed as permanent installations. Some will be designed to have a limited life, perhaps made of natural materials that will naturally decay.

These changing displays of sculpture will attract regular public and social media attention, encourage repeat visits, and avoid the often high cost of purchasing major outdoor sculptures, as well as the challenges of long-term maintenance and preservation.



Arddangosfa bosib yn seiliedig ar gasgliad celf Cyfarthfa mewn mannau a grëwyd yn wreiddiol fel ystafelloedd dosbarth ond bydd wedi'u hadnewyddu. Mae'r ystafelloedd hyn yn gweddu'n berffaith ar gyfer celf ac mae gan nifer o'r ystafelloedd olau gogleddol ysgafn o ffenestri sy'n edrych dros goetir (tudalen sy'n wynebu) | A potential display based on the Cyfarthfa art collection in refurbished spaces originally created as school classrooms. These rooms are perfectly proportioned for art and many have gentle north light from windows overlooking woodland (facing page)



- 1. Giât Gogledd Newydd | New North gate
- 2. Parcio arfaethedig | Proposed parking
- 3. Neuaddau newydd | New Halls
- 4. Castell | Castle
- 5. Cwrt blaen | Forecourt
- 6. Llyn | Lake
- 7. Ffwrneisi Hanesyddol | Historic Furnaces

Arddangosfeydd dros dro | Temporary Exhibitions



Bydd rhaglen o arddangosfeydd Cyfarthfa yn cynnwys gosodweithiau uchelgeisiol a gomisiynir gan artistiaid. Dyma waith teamLab o 2018, Universe of Water Particles on a Rock Where People Gather, a ddangosir mewn lleoliadau gan gynnwys Tokyo a Shanghai. (tudalen sy'n wynebu) | Cyfarthfa's exhibition programme will include ambitious installations commissioned from artists. Here is teamLab's 2018 work, Universe of Water Particles on a Rock Where People Gather, shown in locations including Tokyo and Shanghai. (facing page)

Bydd arddangosfeydd Cyfarthfa yn cyflwyno celf o Gymru i'r byd ac yn dod â chelf o'r byd i Gymru. Gallwn ragweld tri phrif faes:

1. Cyfres o arddangosfeydd diffiniol ar hanes a llwyddiannau celf o Gymru. Byddai'r rhain yn boblogaidd ac yn hygyrch, a hefyd yn arbenigol, ynghyd ag ymchwil newydd gan ysgolheigion Cymreig a rhyngwladol a wahoddir, os yn bosib, i gynnal cymrodoriaethau preswyl yng Nghyfarthfa. Ochr yn ochr â'r arddangosfeydd, byddai cynadleddau academaidd a digwyddiadau a sgysiau cyhoeddus. Byddai celf o Gymru yn cael ei gyflwyno a'i feirniadu mewn cyd-destun Ewropeaidd a bydeang, gan ddenu proffil cenedlaethol a rhyngwladol.

2. Fersiwn estynedig o'r Dathliad o Gelf Gyfoes Cymru. Ers 2017, mae Cyfarthfa wedi chwarae rôl amlwg yn yr arddangosfa aml-leoliad hon o waith artistiaid profiadol a newydd. Gellid ehangu hyn i gynnwys ffilm, cerfluniau a chyfryngau eraill, gan adeiladu ar breswyladau celf a chyfnedfeydd rhyngwladol Cyfarthfa drwy wahodd artistiaid dethol o'r tu allan i Gymru i gymryd rhan.

3. Gosodweithiau mawr a gomisiynir gan artistiaid blaenllaw. Yn ogystal ag ymgysylltu â chynulleidfia leol a chenedlaethol, byddai'r prosiectau uchelgeisiol hyn yn ceisio denu proffil rhyngwladol ac annog twristiaid rhyngwladol sydd â diddordeb mewn celf i wneud siwrnai arbennig, gan ddod â chydabyddiaeth i Gyfarthfa fel cartref gosodweithiau celf gyfoes uchelgeisiol ac artistiaid dewr. Yn ddelfrydol, byddai datblygiad a gwneuthuriad y gosodweithiau yn digwydd yn Nghyfarthfa, gan ddatblygu sgiliau lleol a darparu cyflogaeth yn lleol.

Cyfarthfa's exhibitions will present art from Wales to the world and bring art from the world to Wales. We can envisage three main strands:

1. A series of definitive exhibitions on the history and achievements of Welsh art. These would be popular and accessible, and also expert, accompanied by new research by Welsh and international scholars invited, if possible, to hold residential fellowships at Cyfarthfa. Alongside the exhibitions there would be academic conferences as well as public events and talks. Welsh art would be presented and critiqued in a European and global context, gaining a national and international profile.

2. An expanded version of the Celebration of Welsh Contemporary Painting. Since 2017, Cyfarthfa has played a leading role in this multi-venue exhibition of work by established and emerging artists. This could be expanded to include film, sculpture and other media, and build on Cyfarthfa's art residencies and international exchanges by inviting participation by selected artists from outside Wales.

3. Major installations, commissioned from leading artists. As well as engaging a local and national audience, these ambitious projects would aim to gain international profile and encourage art-interested international tourists to make a special trip, bringing recognition to Cyfarthfa as a home for ambitious contemporary art installations and brave artists. Ideally, development and fabrication of the installations would happen at Cyfarthfa, developing local skills and providing local employment.

Gwyliau a Sioeau Celf |

Art Festivals and Spectacles

Bob blwyddyn, gallai celf Cyfarthfa droi'n sioe a hanner. Efallai y bydd pypedau celf enfawr o'r Royal de Lux, tân gwyllt ganol dydd gan Cai Guo-Qiang, gorymdeithiau torfol neu berfformiadau o dan arweiniad Jeremy Deller, neu weithiau celf torfol a arweinir gan y Big Draw.

Byddai sioeau celf o'r fath hyn yn denu cynulleidfaoedd a sylw'r cyfryngau o bell ac agos. Byddant yn ddigwyddiadau lle bydd cynulleidfaoedd leol eang iawn yn dod ar draws celf gyfoes, a byddai modd eu hymgorffori, o bosib, mewn digwyddiadau, fel Gŵyl Merthyr Rising neu fel rhan o adfywiad Ffair a Gala Cyfarthfa, y mae hiraeth mawr ar eu hôl.

Gallai artistiaid gael eu comisiynu hefyd i chwarae rhan yn noson tân gwyllt Cyfarthfa, neu wrth gynllunio'r goleuadau Nadolig, fel maen nhw'n ei wneud bob blwyddyn yn Turin. Fel nifer o bethau yn uchelgais celf Cyfarthfa, byddai cyfleoedd i bobl leol ac artistiaid newydd gyfrannu at ddatblygu a chreu'r gweithiau hyn, gan feithrin sgiliau a hyder creadigol.

Each year art at Cyfarthfa could take a truly spectacular turn. There might be giant art puppets from Royal de Lux, daytime fireworks by Cai Guo-Qiang, mass parades or performances led by Jeremy Deller, or people-powered mass artworks led by the Big Draw.

These art spectacles would attract audiences and media attention from far and wide. Potentially incorporated into events, such as the Merthyr Rising Festival or as part of a revival of the much missed annual Cyfarthfa Fete and Gala, they will be events where a very wide local audience encounters contemporary art.

Artists could also be commissioned to play a part in Cyfarthfa's bonfire night, or in designing Christmas illuminations, as they do each year in Turin. As with many things in Cyfarthfa's art ambition, there would be opportunities for local people and emerging artists to contribute to conceiving and making these works, building skills and creative confidence.



Gallai celf tymhorol gynnwys goleuadau Nadolig a gynllunir gan artistiaid. Dyma'r Spectacle of Light yn oriel a pharc celf Compton Verney yn Swydd Warwick (brig). Gallai gwyliau celf ailfywiogi digwyddiadau hynod o boblogaidd fel Ffair a Gala Cyfarthfa, a welir fan hyn yn 1948. (gwaelod) | Seasonal art could include artist-designed Christmas illuminations. This is the Spectacle of Light at Compton Verney art gallery and park in Warwickshire (top). Art festivals could reinvigorate events such as the hugely popular Cyfarthfa Fete and Gala, seen here in 1948. (bottom)



Dysgu a Chymuned | Learning and Community



Plant Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa yn mwynhau'r casgliad celf yn y Castell. Bydd dysgu a chyfranogiad cymunedol yn llifo drwy bopeth yn Nghyfarthfa. Ffotograffiaeth: Alex Lloyd Jenkins | Children from Cyfarthfa Park Primary School enjoying the art collection in the Castle. Learning and community participation will flow through everything at Cyfarthfa. Photography: Alex Lloyd Jenkins

Mae gan Gyfarthfa berthynas ddofn â dysgwyr a chymunedau lleol yn barod. Yn 2022-23, cafwyd dros 4,000 o gysylltiadau uniongyrchol â phobl drwy ddysgu cymunedol anffurfiol, a thros 3,000 o bobl o ysgolion a mannau dysgu ffurfiol eraill yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn digwyddiadau a gweithdai gyda staff Cyfarthfa.

Ceir cymuned gelf sydd wedi hen ennill ei phlwyf yng Nghyfarthfa, wedi'i gwreiddio mewn dosbarthiadau celf yn y Castell a'r Bothy yn y parc, gwaith sylweddol yn Ysgol Uwchradd Pen y Dre gerllaw ac amrywiaeth o brosiectau celf i bobl ifanc ar stad y Gurnos a thu hwnt yn yr ardal hon. Byddai cydlynw ac adeiladu ar y gwaith hwn yn helpu i ddatblygu model o ddysgu seiliedig ar gelf a dinasyddiaeth greadigol.

Bydd uchelgeisiau Cyfarthfa ar gyfer celf yn cyfrannu at adfywio a gweithgarwch cymunedol mewn mannau eraill ym Merthyr Tudful, a'r tu hwnt o bosib, mewn partneriaeth â sefydliadau celfyddydol lleol a rhanbarthol. Fel sefydliad cenedlaethol newydd, byddem yn disgwyl i'w allu a'i potensial addysgol fod o ddiddordeb ledled Cymru.

Ceir traddodiad o ddysgu seiliedig ar gelf ym Merthyr, o Ganolfan Addysgol Dowlais yn y 1920au a'r 30au hyd at y presennol. Heddiw, mae nifer o bobl leol wrthi'n creu celf, o grwpiau a chymdeithasau celf i bobl ifanc yn yr ysgol, ynghyd â Choleg Merthyr lle caiff celf ei ddysgu ar lefelau uwch. Mae brwdfrydedd lleol aruthrol dros ehangu celf yng Nghyfarthfa.

Cyfarthfa already has deep relationships with local learners and communities. In 2022-23 there were more than 4,000 direct connections with people through informal community learning, and more than 3,000 people from schools and other places of formal learning engaged directly in events and workshops with Cyfarthfa staff.

There is already a well-established art community at Cyfarthfa, rooted in art classes at the Castle and Bothy located in the park, extensive work at nearby Pen y Dre High School and a range of young-people's art projects on the Gurnos estate and elsewhere in the area. Co-ordinating and building on this work would help develop a model of art-based learning and creative citizenship.

Cyfarthfa's aspirations for art will contribute to regeneration and community activity elsewhere in Merthyr Tydfil and potentially further afield, in partnership with local and regional arts organisations.

There has long been a tradition of art-based learning in Merthyr, from the Dowlais Settlement of the 1920s and 30s to the present. Today, many local people practise art, from arts groups and societies to young people at school, as well as at Merthyr College where art is taught at higher levels. There is huge local enthusiasm for expanding art at Cyfarthfa.

Artistiaid Cefnogol | Supporting Artists

Bydd Cyfarthfa yn ceisio cefnogi artistiaid newydd a phrofiadol. Byddai gofod stiwdio o fewn y parc yn helpu artistiaid sy'n cael eu prisio allan o lefydd fel Caerdydd. Efallai y bydd y rhain yn cael eu cynnig am ddim i raddedigion celf diweddar o Goleg Merthyr, gan eu hannog i aros yn yr ardal. Byddai Cyfarthfa hefyd yn cefnogi artistiaid newydd i arddangos eu gwaith a datblygu eu sgiliau a'u rhwydweithiau.


Yn ogystal, gellid cynnig preswyladau a chymrodoriaethau gwadd i artistiaid o'r tu allan i'r ardal. Byddai rhaglen gyfnewid ryngwladol yn galluogi artistiaid o'r ardal i dreulio amser dramor ac yn caniatáu i artistiaid o dramor dreulio amser yng Nghyfarthfa. Byddai artistiaid a chymrodyr preswyl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus ac yn cefnogi artistiaid eraill drwy fentora neu gefnogaeth gan gymheiriaid.

Yn gryno, dylai Cyfarthfa anelu at fod yn sbardun ar gyfer rhwydwaith bywiog o artistiaid, sy'n cefnogi ei gilydd, gan adleisio Canolfan Addysgol Dowlais a sefydlwyd yn 1928, lle roedd artistiaid yn gweithio gyda phobl leol.

Cyfarthfa will seek to support emerging and established artists. Studio spaces within the park would help artists who are being priced out of places like Cardiff. These might be offered free to recent local art graduates from Merthyr College, encouraging them to stay in the area. Cyfarthfa would also support emerging artists to display their work and develop their skills and networks.

In addition, artists from outside the area could be offered residencies and visiting fellowships. An international exchange programme would enable artists from the area to spend time overseas and allow overseas artists to spend time at Cyfarthfa. Artist residents and fellows would take part in public events and support other artists with mentoring or peer support.

In short, Cyfarthfa should aim to be the catalyst for a lively mutually supporting network of artists, echoing the Dowlais Settlement established in 1928, where artists worked with local people.



Bydd Cyfarthfa yn adeiladu ar y gwaith o gefnogi artistiaid, fel yn Natliad Arlunio Cyfoes Cymreig, lle bu gwaith artistiaid newydd yn elwa o gael ei arddangos ochr yn ochr ag artistiaid sefydledig. Dyma Charles Burton o flaen llun gan artist ifanc Zoe Ridgway. (brig) Bydd Cyfarthfa hefyd yn cynnig cyfleoedd i artistiaid ag enw rhyngwladol, megis Cerith Wyn Evans. | Cyfarthfa will build on its work to support artists, such as the Celebration of Welsh Contemporary Painting, where emerging artists benefit from being shown alongside established artists. Here artist Charles Burton is in front of a painting by young artist Zoe Ridgway. (top) Cyfarthfa will also give opportunities for internationally known Welsh artists such as Cerith Wyn Evans.

Lleol | Local



Bydd uchelgais Cyfarthfa ym maes celf yn annog mwy o bobl ifanc i aros yn yr ardal, meithrin sgiliau a chynyddu gweithgarwch economaidd. Ffotograffiaeth: Alex Lloyd Jenkins | Cyfarthfa's ambitions for art will encourage more young people to stay in the area, will build skills and increase economic activity. Photography: Alex Lloyd Jenkins

Cefnogaeth Cyfarthfa i artistiaid lleol, yn enwedig pobl ifanc, fydd un o'i gyfraniadau allweddol i'r ardal leol, gan ddatblygu eu sgiliau, eu rhwydweithiau a'u hyder drwy eu cysylltu ag artistiaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol eraill, gan ddarparu gofod stiwdio a gweithdai a chynnig mentora a datblygu sgiliau. Byddai hyn yn annog mwy o bobl ifanc i aros yn yr ardal. Mae'r Sefydliad eisoes wedi ymrwymo i weithio gyda chlybiau ieuenctid, colegau a sefydliadau hyfforddi i ddatblygu sgiliau lleol a chyflogadwyedd.

Byddai dod â chynulleidfaoedd ac artistiaid i Gyfarthfa yn cynyddu cyfleoedd busnes a chyflogaeth. Bydd cynnwys pobl leol mewn prosiectau artistig mawr yn adeiladu eu sgiliau trosglwyddadwy ac yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o yrfaoedd creadigol posib. Bydd Cyfarthfa yn ceisio gweithio gyda phartneriaid i gynnig hyfforddiant ar gyfer swyddi creadigol ac i archwilio ffyrdd y gall llwybrau gyrfa strwythuredig ei gefnogi i gyflogi pobl leol.

Bydd proffil cenedlaethol a rhyngwladol newydd a gwahanol yn gwella enw da Merthyr Tudful ac yn cryfhau balchder, cyfleoedd a hyder yn lleol.

Ddechrau'r 19eg ganrif, roedd y dur a gynhyrchwyd yng Nghyfarthfa yn arwyddocaol ar draws y byd ac wrth wraidd enw da a ffyniant Merthyr. Bellach, 200 mlynedd yn ddiweddarach, dylai Cyfarthfa anelu at greu effeithiau byd-eang, cenedlaethol a lleol tebyg drwy gelf.

Cyfarthfa's support for local artists, especially young people, will be one of its key contributions to the local area, building their skills, networks and confidence by connecting them with other local, national and international artists, providing studio and workshop space and offering mentoring and skills development. This would encourage more young people to stay in the area. The Foundation is already pledged to work with youth clubs, colleges and training organisations to develop local skills and employability.

Bringing audiences and artists to Cyfarthfa would increase business and employment opportunities. Involving local people in major artistic projects will build their transferable skills and increase their awareness of potential creative careers. Cyfarthfa will seek to work with partners to offer training for creative jobs and to explore ways in which structured career paths can support it to employ local people.

A new and different national and international profile will enhance the reputation of Merthyr Tydfil and strengthen local pride, opportunity and confidence.

In the early 19th century Cyfarthfa's iron-making was globally significant and at the heart of Merthyr's reputation and prosperity. Now, 200 years on, Cyfarthfa should aim to create similar global, national and local impacts through art.

Cenedlaethol | National

Bydd Cyfarthfa yn gwneud cyfraniad sylweddol at fywyd diwylliannol Cymru, gan ddod â chelf newydd i Gymru er mwyn cysylltu â thalent ac allbwn cynhenid. Drwy arddangosfeydd rheolaidd a chasgliad sy'n tyfu, byddai'n dadlennu cyfoeth ac amrywiaeth llawn celf Gymreig.

Byddai'n denu ymwelwyr nid yn unig o'r ddinas-ranbarth ond o bob cwr o Gymru, a dylai anelu at fod yn atyniad 'y mae'n rhaid ei weld' ymysg pobl ifanc o ysgolion a cholegau, yn ogystal â chyrchfan boblogaidd i bobl sy'n byw yn yr ardal ehangach. Ym Ninas-Ranbarth Caerdydd, bydd Cyfarthfa a'r Metro newydd yn annog mwy o bobl yn y brifddinas i archwilio eu rhanbarth eu hunain.

O fewn pum mlynedd i agor ar ei newydd wedd, dylai Cyfarthfa anelu at fod yn y rhestr deg uchaf o atyniadau i bobl sy'n ymweld â Chymru, gan dargedu'r farchnad gynyddol am dwristiaid celfyddydol. Bydd uchelgeisiau artistig Cyfarthfa yn cael sylw yng nghyfryngau cenedlaethol y DU, diolch i deithiau arbennig i'r wasg ar gyfer newyddiadurwyr confensiynol a dylanwadwyr ar gyfryngau cymdeithasol, gan roi hwb i broffil y celfyddydau gweledol yng Nghymru drwyddi draw.

Bydd Cyfarthfa yn bartner brwdfrydig, gan weithio gydag amgueddfeydd ac orielau eraill yng Nghymru – lleol a chenedlaethol - er lles pawb.

Cyfarthfa will make a substantial contribution to the cultural life of the Welsh nation, bringing new art to Wales to connect with indigenous talent and output. Through its regular exhibitions and growing collection it would reveal the full richness and variety of Welsh art.

It would attract visitors not only from the city region but also from all over Wales, and should aim to become a 'must see' attraction for young people from schools and colleges, as well as a popular destination for people living in the wider region. In the Cardiff city region, Cyfarthfa and the new Metro will encourage more people in the Welsh capital to explore their own region.

Within five years of opening in its new guise Cyfarthfa should aim to be in the top ten list of attractions for people visiting Wales, targeting the growing market for cultural tourists. Cyfarthfa's artistic ambitions will register in the UK national media, helped by expertly arranged press trips for conventional journalists and social-media influencers, boosting the profile of visual arts in Wales as a whole.

Cyfarthfa will be an enthusiastic partner, working with other museums and galleries in Wales for mutual benefit.



Bydd uchelgais gelfyddydol Cyfarthfa yn denu twristiaid celfyddydol ac yn helpu i godi proffil rhyngwladol celf o Gymru a'r Cymoedd. Ffotograffiaeth: Alex Lloyd Jenkins | Cyfarthfa's art ambition will attract cultural tourists and help raise the international profile of Welsh art and the Valleys. Photography: Alex Lloyd Jenkins

Byd-eang | Global



Bydd Cyfarthfa yn medru cyd-weithio gyda amgueddfeydd eraill mewn safleoedd diwydiannol megis Kistefos yn Norwy | Cyfarthfa could partner with other art museums located within industrial sites such as Kistefos in Norway.

Yn ogystal â denu ymwelwyr o weddill y DU, byddai'n gwbl realistig i Gyfarthfa adeiladu proffil rhyngwladol, uchel ei fri, drwy gomisiynau uchelgeisiol gan artistiaid a thrwy breswyladau a chyfnewidfeydd i artistiaid. Dyma'r rhaglenni a allai ddenu cefnogaeth sawl sefydliad elusennol. Byddai artistiaid rhyngwladol sy'n treulio amser yma yn dweud wrth bobl eraill am Gyfarthfa ar ôl dychwelyd, gan adeiladu rhwydwaith o alumni Cyfarthfa a chodi ymwybyddiaeth o Gyfarthfa fel lle i greu ac archwilio celf.

Dylai Cyfarthfa hefyd adeiladu perthnasoedd a phartneriaethau gydag amgueddfeydd Ewropeaidd sy'n rhannu'r un diddordebau. Gallai enghreifftiau gynnwys amgueddfeydd mewn hen dirweddau diwydiannol fel Kistefos yng nghefn gwlad Norwy neu'r Landschaftspark yn Duisburg, yr Almaen.

Gallai partneriaid eraill gynnwys amgueddfeydd mewn parciau fel Ordrupgaard, Trapholt neu Louisiana yn Nenmarc a Middelheim yn Antwerp, Gwlad Belg. Fel hyn, byddai'n cyfrannu at y rhwydwaith ehangach o barciau cerfluniau, fel y Sefydliad Henry Moore a Pharc Cerfluniau Swydd Efrog yn Lloegr, Amgueddfa Kröller-Müller yn yr Iseldiroedd a Château La Coste yn Ffrainc.

Byddai cysylltiadau rhyngwladol o'r fath yn cefnogi gwaith Cyfarthfa i gyflwyno a denu pobl at gelf, a chodi proffil Cyfarthfa, Merthyr Tudful a Chymoedd de Cymru.

As well as attracting visitors from the rest of the UK, it would be perfectly realistic for Cyfarthfa to build a prestigious, international profile, through ambitious commissions from artists and through artist residencies and exchanges. These would be programmes that could attract the support of several charitable foundations. International artists spending time here would tell other people about Cyfarthfa when they return, building a network of Cyfarthfa alumni and awareness of Cyfarthfa as a place where art is created and explored.

Cyfarthfa should also build relationships and partnerships with European museums that have shared interests. Examples might include museums in former industrial landscapes such as Kistefos in rural Norway or the Landschaftspark in Duisburg, Germany.

Other partners could be parkland museums like Ordrupgaard, Trapholt or Louisiana in Denmark and Middelheim in Antwerp, Belgium. In this way it would contribute to the wider network of sculpture parks, such as the Henry Moore Foundation and the Yorkshire Sculpture Park in England, the Kröller-Müller Museum in the Netherlands and Château La Coste in France.

Such international connections would support Cyfarthfa's work to present and engage people with art, and raise the profile of Cyfarthfa, Merthyr Tydfil and the south Wales valleys.

Ardystiadau

“Mae’r cynnig hwn ar gyfer “Celf Cyfarthfa” yn ddatganiad clir o’r hyn sydd ei angen ar frys yng Nghymru i fynegi natur fywiog ac unigryw ein diwylliant byw ac esblygol.”

David Nash, cerflunydd ac artist amgylcheddol. Mae’n adnabyddus ym mhedwar ban byd am ei waith gyda deunyddiau naturiol. Mae’n byw ac yn gweithio ym Mlaenau Ffestiniog.

“Mae gan Gyfarthfa a’r rhan hon o dde Cymru dreftadaeth ddiwydiannol, ddiwylliannol a chwaraeon gyfoethog ac unigryw, i gyd yn frith o ymrwymiad hirsefydlog i radicaliaeth a chymuned. Mae’n hen bryd cael y prosiect pwysig hwn ac mae’n haeddu cefnogaeth gan ei fod yn targedu rhanbarth o’n cenedl nad yw’n cael digon o fuddsoddiad diwylliannol.”

Laura McAllister, Athro Polisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Caerdydd ac ar hyn o bryd mae’n gyd-Gadeirydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Bu’n Gadeirydd Chwaraeon Cymru ac ar hyn o bryd mae hi’n Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Pêl-droed Menywod UEFA.

“Mae gormod o lawer o’n treftadaeth ddiwydiannol wedi cael ei hysgubo i ffwrdd. Mae cyfle yng Nghyfarthfa nid yn unig i achub cofeb bwysig i gyfnod hanfodol o’n hanes, ond hefyd i roi pwrpas artistig ysbrydoledig iddi sy’n canolbwyntio ar y dyfodol.”

William Wilkins, artist ac entrepreneur diwylliannol sy’n gyfrifol am greu Gwobr Celf Ryngwladol Artes Mundi yng Nghymru a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Endorsements

“This proposal for “Art at Cyfarthfa” is a clear statement of what is urgently needed in Wales to express the vitality and uniqueness of our living and evolving culture.”

David Nash is a sculptor and environmental artist, known internationally for his work with natural materials. He lives and works in Blaenau Ffestiniog.

“Cyfarthfa and this part of south Wales has a rich and unique industrial, cultural and sporting heritage, all marbled with a long-standing commitment to radicalism and community. This important project is long overdue and deserves support as it rightly targets a region of our nation that attracts far too little cultural investment.”

Laura McAllister is Professor of Public Policy at Cardiff University and currently co-Chair of the Independent Commission on the Constitutional Future of Wales. She is a past Chair of Sport Wales and is currently Deputy Chair of UEFA’s Women’s Football Committee.

“Far too much of our industrial heritage has been swept away. There is an opportunity at Cyfarthfa not only to rescue an important monument to a vital period of our history, but also to give it an uplifting artistic purpose focussed on the future.”

William Wilkins is an artist and cultural entrepreneur responsible for the creation of both the National Botanic Garden of Wales and the Wales-based Artes Mundi International Art Prize.

“Mae Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru yn hanfodol i godi amlygrwydd a hyder y celfyddydau yng Nghymru. Roedd Merthyr Tudful wrth galon y chwyldro diwydiannol, a bydd cael canolfan celfyddydau creadigol yno’n gwella mynediad cymunedol i’n celfyddyd a’n diwylliant ein hunain. Bydd hefyd yn rhoi ymdeimlad i ni o’n gwerth ein hunain – sy’n werthfawr i’r genedl ac yn rhyngwladol.”

Shani Rhys James, artist o Gymru sy’n adnabyddus yn rhyngwladol. Yn ystod ei gyrfa mae hi hefyd wedi ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Peintio Jerwood a Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol.

“Mae’r bwriad i ddod a treftadaeth ddiwydiannol a chelf hanesyddol a chyfoes cenedl at ei gilydd, yn ogystal a sefydlu cysylltiadau rhyngwladol, yn ddatganiad dwfn am ddoniau a dyheadau cenedl fach. Hefyd, mae potensial addysgol y fenter arbennig hon yn enfawr. Does dim lleoliad mwy addas iddi na Merthyr Tudful.”

Y Fonesig Helen Hyde yw Cadeirydd y Sefydliad Treftadaeth Iddewig sy’n gyfrifol am adfer synagog hanesyddol Merthyr Tudful. Mae hi hefyd yn Ymddirielowr gyda Chanolfan Genedlaethol ac Amgueddfa’r Holocaust ac Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocaust.

“A National Contemporary Art Gallery for Wales is an imperative for the visibility and confidence of the arts in Wales. Merthyr Tydfil was at the heart of industrial invention, and a creative arts centre there will greatly enhance community access to our own art and culture. It will also give us a sense of our own worth – valuable for the nation and internationally.”

Shani Rhys James is an internationally known Welsh artist. During her career she has also won numerous prizes, including the Jerwood Painting Prize and the National Eisteddfod Gold Medal.

“The intent to bring together the industrial heritage and art of a nation, both historical and contemporary, as well as establishing international connections, says something profound about the capacity and aspirations of a small nation. The educational potential of this special undertaking is also immense. There can be no more apt a place for it than Merthyr Tydfil.”

Dame Helen Hyde is the Chair of the Foundation for Jewish Heritage that is currently restoring the historic synagogue at Merthyr Tydfil. She is also a Trustee of the National Holocaust Centre and Museum and the Holocaust Education Trust.

Cyfranwyr | Contributors

Cultural Associates Oxford (CAO)

w www.culturalassociates.co.uk

CHART

w www.chart.swansea.ac.uk

Hill Harvey-Wood Architects (HHW)

w www.hillharveywood.com

Jonathan Cook Landscape Architects (JCLA)

w www.jcla.co.uk

Celf yng Nghyfarthfa | Art at Cyfarthfa



Sefydliad
Cyfarthfa
Foundation



Cynor Byrdeistref Sirol
MERTHYR TYDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council